CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion [DRAFFT] cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy ffyrf hybrid **nos Lun, 5 o Ragfyr 2022** am **7:00yh**

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Jabez Redfern Oakes, Dafydd Hughes, Menna Jones, Anne Roberts a Heather Williams.
Sian Clark – Clerc y Dref a Marian Rees - Cyfieithydd

42. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Dim.

43. DATGAN BUDDIANNAU
Dim

44. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd 2022 yn gywir.
PENDERFYNWYD: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 14 o Dachwedd 2022 yn cael eu cadarnhau.*

45. MATERION YN CODI
Dim.

46. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Roedd manylion penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych wedi eu dosbarthu gyda'r agenda.
PENDERFYNWYD: *nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Dinbych.*

47. CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.

PENDERFYNWYD: nad oedd gwrthwynebiad *i'r ceisiadau a ganlyn:*

02/2022/0986 The Bungalow, Ruthin Castle, Castle Street, Ruthin
Gostyngiad mewn uchder o 1 goeden sycamorwydden a atodir i'r Gorchymyn Cadw Coed Castell Rhuthun Rhif 25 1963
Dim gwrthwynebiad - ond nodwyd nad oedd adroddiad swyddog trin coed wedi'i gynnwys.

02/2022/1017 18 Bryn Rhydd, Ruthin
Codi estyniad a newidiadau i'r annedd.
Dim gwrthwynebiad.

48. AMCANGYFRIFON ARIANNOL AM FLWYDDYN ARIANNOL 2023-24
Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth gychwynnol i wariant y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2023-24 gan nodi'r penawdau cyllideb a ganlyn o dan eu maes

hwy: Llifoleuadau; TG a Gwefan; a Dyfodol Rhuthun. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio ar gostau ynni rhagamcanol mewn perthynas â llifoleuadau i fwydo i mewn i drafodaethau cyllideb ym mis Ionawr; dywedodd y Clerc hefyd fod ymchwil wedi ei wneud a bod dyfynbrisiau wedi eu ceisio a'u derbyn mewn perthynas â datblygu gwefan (a darparwr) newydd ac ar gyfer offer TGCh.
PENDERFYNWYD: *gofyn am ragor o wybodaeth am gostau ynni rhagamcanol mewn perthynas â llifoleuadau; a nododd waith a wnaed mewn perthynas â gwefan newydd ac ar gyfer offer TGCh*

49. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
PENDERFYNWYD*: mai nos Lun, 16 o Ionawr 2023 am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*